# Blog: Sut rydym yn ceisio creu lleoliad gwrth-hiliaeth lle mae pob plentyn yn teimlo'n arbennig ac yn teimlo ei fod yn cael ei weld.



Meithrinfa gofal dydd preifat a chlwb gwyliau yw Lullabyz Nursery Ltd, Casnewydd. Agorodd y feithrinfa yn 2012 ac mae wedi ffynnu dros y blynyddoedd.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw Nicola Reed a fi yw'r Person â Gofal. Daeth Nicola a minnau'n ffrindiau yn y brifysgol, lle buom yn hyfforddi i fod yn athrawon ysgol gynradd gyda'n gilydd. Rhyngom mae gennym dros hanner can mlynedd o brofiad o weithio gyda phlant ac rydym yn ymroddedig i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf.

Mae gennym dîm ardderchog o staff sydd â chymwysterau uchel ac yn hynod ymroddedig i'r feithrinfa.

Yn gyntaf ac yn bennaf rydym yn un TEULU mawr! Pan fydd staff, plant a'u teuluoedd estynedig yn ymuno â ni, buan iawn y dônt yn aelodau cyflawn o'r teulu Lullabyz hwn. Mae'r staff yn gariadus, yn gyfeillgar ac yn groesawgar ac yn ffurfio cysylltiadau agos â'r plant a'u gofalwyr.

## Beth wnaeth i chi ddechrau ar eich taith i fod yn feithrinfa wrth-hiliaeth?

Roeddwn yn ddigon ffodus i gymryd rhan yn yr hyfforddiant DARPL, sydd ers hynny wedi ein hanfon ar daith ddarganfod gyda'n staff a'n plant, i archwilio a herio gwrth-hiliaeth. Yn dilyn yr hyfforddiant sylweddolais yn gyflym fod ein lleoliad yn gynhwysol ac yn ddathlu gwahanol hil a ffydd, ond ei fod ymhell o fod yn 'wrth-hiliaeth'. Fel y gwna'r rhan fwyaf o leoliadau, buom yn hapus i edrych ar 'ddiwrnodau arbennig' pob plentyn a dathlu bwydydd, traddodiadau a dillad gyda'u teuluoedd, cyfoedion a staff. Fodd bynnag, canfuwyd bod y trafodaethau a'r sgyrsiau beunyddiol hynny

ynghylch hil yn aml yn cael eu hanwybyddu neu eu hosgoi er mwyn peidio â dweud y peth anghywir ac achosi tramgwydd.

## Sut wnaethoch chi ddechrau?

Yn dilyn yr hyfforddiant DARPL roeddem yn teimlo mai'r ffordd hon o eithrio'r trafodaethau, y tu allan i wyliau a digwyddiadau arbennig, a pheidio â herio'r plant i dalu sylw, i adnabod gwahaniaethau, i gwestiynu meddyliau, oedd mabwysiadu dull lliw-ddall a dyma oedd ein sbardun ar gyfer newid.

Fe wnaethon ni dreulio amser yn edrych yn feirniadol ar ein hystafelloedd a'n hadnoddau a gofyn i ni'n hunain:

Ydy'r plant yn cael eu cynrychioli?

Ydyn nhw'n gallu gweld eu hunain, eu ffydd a'u diwylliannau?

A allant wir deimlo'n rhan o'n teulu?

O'r fan hon fe wnaethom greu cynllun gweithredu, sy'n cynnwys creu polisi ar gyfer y feithrinfa gyfan, prynu adnoddau pellach a chynnal deialog agored gyda'r plant a'u teuluoedd, meithrin ymddiriedaeth a'u cynnwys yn wirioneddol ym mywyd y feithrinfa.

Un o'r camau gweithredu mwyaf i ni oedd, ac yn parhau felly, yw ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff. Mae aelod arall o'r tîm rheoli eisoes wedi mynychu hyfforddiant DARPL ac mae gennym staff eraill yn mynychu carfan yn Nhymor yr Haf. Tan hynny rydym wedi dechrau hyfforddiant mewnol.





**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

## Sut oedd eich hyfforddiant mewnol yn edrych?

Gosodwyd heriau meddylgar i'r staff yn ystod ein cyfarfodydd staff. Cawsant eu herio yn gyntaf i edrych arnynt eu hunain fel unigolion, i rannu eu profiadau eu hunain, i edrych ar eu credoau a'u barn eu hunain ac i herio unrhyw fannau dall neu ragfarn a allai fod ganddynt. Buom yn trafod o ble y gallai'r ragfarn hon fod wedi dod?

*“Mae'n ymddangos mor amlwg unwaith y byddwch chi'n gweld / adnabod y rhagfarn a byddaf yn edrych allan am enghreifftiau o hyn yn y dyfodol. Mae bron yn yr is-ymwybod, sy'n frawychus iawn."*

Aethom ymlaen wedi hynny i wylio'r arbrawf ‘Doll’ ar ‘youtube’. Ar yr adeg hon nid oedd gan y staff esboniad mewn gwirionedd pam y dewisodd cymaint o’r plant y ddol wen mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaol megis pa ddol yw’r harddaf? ac ati, felly fe wnaethom ddilyn hyn gydag enghreifftiau o bethau mae plant yn eu gweld bob dydd a sut mae'r byd o'u cwmpas eisoes yn plannu syniadau a rhagfarn yn eu meddyliau.

*“Waw mae hynny’n dorcalonnus bod y plant yn y fideo yn teimlo felly. A allai fod o brofiadau bywyd y maen nhw wedi’u cael a’u gweld wedi gwneud iddyn nhw feddwl hynny?”*

*“Bore da  Lou,  rydw i wedi darllen y wybodaeth rydych chi wedi'i hanfon atom ni, ac roeddwn i wedi fy ysgwyd wrth wylio'r fideo, gan nad ydych chi'n sylweddoli'r effaith mae'n ei gael arnyn nhw ac yn methu â chredu mai dyna sut mae plant yn teimlo eu hunain 😥 . Rwy'n cytuno bod angen i ni wneud mwy i gynnwys pob plentyn ac edrychaf ymlaen at feddwl am syniadau pan fyddaf yn ôl. Mae gen i lyfr yma, wedi'i ysgrifennu gan George sydd â syndrom Down ac mae'n dweud nad oes ots os ydyn ni i gyd yn edrych yn wahanol rydyn ni i gyd yr un peth. Dwi hefyd yn gwylio ‘JoJo a gran gran’ gyda fy merch bob nos cyn mynd i’r gwely, doeddwn i ddim yn sylweddoli pa mor addysgiadol yw hi nes i mi ei gwylio, mae’n dda iawn.”*

Cafodd y staff lun o arwyr Disney a Disney Villains i edrych arno – ni chymerodd hi’n hir i’r staff adnabod y defnydd o liwiau tywyll i gynrychioli’r holl ddihirod a thonau heulog llachar yr arwyr a’r tywysogesau, gan awgrymu drwy hynny bod lliwiau du, brown, llwyd yn 'ddrwg'.

*“Wrth edrych ar y rhain (dihirod Disney/arwyr), mae fel ein bod ni'n dweud wrth y plant fod lliwiau tywyllach yn ddrwg - pam fod angen i'r bobl dda fod yn groen golau i gyd, yna'r dihiryn mewn lliwiau tywyllach, mae fel ein bod yn dweud wrthyn nhw y dylen nhw fod yn ofnus o rhywun â chroen tywyllach heb ddangos cydraddoldeb, ac mae wedi gwneud i mi deimlo'n eithaf ypset. Roedd yn agoriad llygad ac yn rhywbeth nad oeddwn i erioed wedi meddwl amdano o’r blaen! Ni ddylem fod yn cysylltu’r lliw du ag ofn gan fod pob lliw yn brydferth. Dw i’n mynd i drio bod yn fwy ymwybodol wrth ddarllen y straeon i’r plant gan nad ydw i eisiau iddyn nhw deimlo bod croen/lliwiau/lleoedd tywyllach yn rhywbeth y dylen nhw fod yn ofnus ohono.”*

Edrychon ni ar straeon a’r defnydd o liwiau tywyll, fel ffordd o gynrychioli rhywbeth oedd yn ‘frawychus a/neu rywle i’w ofni. Mewn cyferbyniad uniongyrchol, mae lluniau o angylion, mewn gwyn pur - i gyd yn sgleiniog ac yn dda. Roedd y staff wedi synnu’n fawr nad oedden nhw erioed wedi sylwi nac wedi meddwl am y negeseuon i’r is-ymwybod oedd yn cael eu rhoi ac roedd yn dod â’r hyn y mae plant ifanc iawn yn dod i gysylltiad ag ef a’r cysylltiadau y gallai hyn ei greu yn eu meddyliau.

*“Rwyf wedi argymell y llyfr hwnnw (The Colour Monster) i fy chwaer i helpu ei bachgen bach gyda lliwiau ac roeddwn i'n meddwl ei fod yn wych. Nawr rydym wedi edrych arno mewn ffordd wahanol a'r goblygiadau sydd iddo, rwy'n teimlo mor wahanol."*




**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

## Sut wnaethoch chi roi'r hyfforddiant ar waith?

Camau cyntaf - Yn ogystal â phrynu llyfrau, defnyddiau a gwrthrychau, rydym yn amlygu’r plant i Gymry dylanwadol o gefndiroedd hiliol gwahanol megis Betty Cambell, Colin Jackson, Maggie-Ogunbanwo. Daethom hefyd o hyd i lyfrau gan awdur du Cymreig yn cynrychioli’r ardaloedd lleol i’r plant, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Rydym wedi gwahodd ein rhieni i’r feithrinfa ar gyfer digwyddiadau amrywiol ac mae’r staff wedi cymryd yr amser i ddod i’w hadnabod. Maent wedi cymryd diddordeb ym mywydau bob dydd y teulu ac wedi creu llinellau cyfathrebu agored, gan leddfu rhywfaint ar yr ofn o ofyn cwestiynau am eu credoau, eu ffydd a’u diwylliannau. Mae un sgwrs wirioneddol syml ond hynod fuddiol y maent wedi’i chael yn seiliedig ar enwau’r plant, wedi’r cyfan mae hyn yn rhan enfawr o hunaniaeth y plant. Pam y cafodd ei ddewis? A yw'n golygu neu'n cynrychioli unrhyw beth? ynganiadau union etc.




Rydym eisoes yn gweld a chlywed gwahanol sgyrsiau, agweddau ac ymatebion gan y plant ac roedd hyn mor amlwg yn ein hadran cyn-ysgol yn ddiweddar. Maent wedi gweithio’n agos iawn gyda theuluoedd yn dathlu Ramadam ac Eid, ac mae wedi rhagori ar unrhyw ‘ddiwrnodau arbennig’ yr ydym wedi’u dathlu o’r blaen. Nid oedd unrhyw rwystrau i ddeall beth oedd y dathliadau'n cael eu cynnal a pham. Nid oedd unrhyw feysydd aneglur neu bethau na chafodd eu trafod, nid oedd unrhyw bynciau na chafodd eu herio ac ni chafwyd gwell dealltwriaeth erioed. Gofynnodd un plentyn hyd yn oed i'w fam a allai fenthyg ei lliain sychu llestri fel y gallai ei ddefnyddio fel mat gweddi yn union fel y mae ei ffrind yn ei wneud.




Cymru
National Day Nurseries Association

**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk


**Beth yw eich camau nesaf ?**

Rydym ar gychwyn ein siwrnai ac ymhell o'r llinell derfyn, mae ganddom ffordd hir i fynd i sicrhau bod y polisiau a'r delfrydau yma yn cael eu mewnblannu yn iawn o fewn y feithrinfa.  Fodd bynnag, mae ganddom yn awr weledigaeth glir o beth rydym eisiau ei gyflawni a sut rydym am wneud hynny.

Mae'r staff yn chwilio am gyfleon dysgu ac yn gweithio gyda'u gilydd i gyrraedd yr un amcan sef i sefydlu gwerthoedd gwrth-hiliaeth clir ynom i gyd.

*"Diolch i chi am gofleidio ein diwylliant, mae'n golygu cymaint.  Rydym wedi bod wrth ein bodd yn gweld Eid yn cael ei ddathlu go iawn yn y feithrinfa, nid yw  'A' wedi stopio dweud wrthom am fod yn 'athro/athrawes' a dangos I'w ffrindiau beth rydym yn ei wneud".*







## Ysgrifenwyd gan Louise Touhig, Lullabyz Nursery Ltd

**Blog: Sut rydym yn ceisio creu lleoliad gwrth-hiliaeth lle mae pob plentyn yn teimlo'n arbennig ac yn teimlo ei fod yn cael ei weld. V0.1 – Mai, 2024**